

# Academi Gwelliant Cymru Canllaw Pecyn Cymorth



## Diagram Asgwrn Pysgodyn

## Beth yw diagram asgwrn pysgodyn?

Offeryn gweledol yw Diagram Asgwrn Pysgodyn sy'n eich helpu i amlygu achosion posibl problem. Fe'i gelwir yn Ishikawa neu 'achos ac effaith' hefyd. Mae'n offeryn gwella effeithiol sy'n cefnogi sefydliadau a rhanddeiliaid i olrhain amherffeithiadau, amrywiadau, diffygion neu fethiannau. Siâp pysgodyn sydd ganddo - caiff y broblem ei nodi ar ben y pysgodyn a chaiff yr achosion ei nodi ar yr asgwrn cefn.

## Rhesymeg

Mae'n helpu'r tîm i ddeall bod llawer o achosion yn cyfrannu at broblem ac mae'n helpu i nodi meysydd i'w gwella. Mae'n dangos y berthynas rhwng achos ac effaith yn weledol.

## Cefndir

Enwyd Ishikawa neu ddiagram asgwrn pysgodyn ar ôl ei ddyfeisiwr yn ystod y 1960au, sef yr Athro Karoru Ishikawa o Brifysgol Tokyo. Fe'i gelwir hefyd yn ddiagram asgwrn pysgodyn gan ei fod yn edrych fel sgerbwd pysgodyn. Defnyddiwyd yr offeryn yn gyntaf i ddelio â heriau yn iardiau llongau Kawasaki. Caiff ei gydnabod fel un o'r saith offeryn o'r ansawdd gorau ymhlith y methodolegau gwella.

## Pryd i ddefnyddio Diagram Asgwrn Pysgodyn

Mae'n offeryn defnyddiol i'w ddefnyddio pan fyddwch chi'n ceisio penderfynu pam mae problem yn digwydd. Bydd yn eich helpu chi a'ch tîm i ddeall y problemau ac ystod eang o ffactorau sylfaenol, ac nid dim ond yr un amlwg. Mae'n creu ciplun o'r wybodaeth gyfunol a chonsensws o'r broblem i'r tîm.

## Sut i ddefnyddio diagram asgwrn pysgodyn


1. Nodwch broblem mewn cydweithrediad â holl aelodau'r tîm. Byddwch yn glir am yr union broblem. Nodwch pwy sy'n gysylltiedig, beth yw'r broblem, pryd a ble mae'r




**Mae eich datganiad  
o'r broblem yn  
mynd yma**

broblem yn digwydd. Tynnwch lun saeth a blwch sy'n dangos y broblem.

2. Nodwch y prif ffactorau (categoriâu) neu achosion posibl. Gall hyn fod yn amgylcheddol neu'n gysylltiedig â phobl, ac yn y blaen. Sicrhewch fod y categorïau yn berthnasol i'ch problem. Cofnodwch y categorïau fel canghennau oddi ar y brif saeth.




3. Trafodwch bob categori yn ei dro a meddyliwch am achosion posibl i'r broblem. Parhewch i nodi pob posibilrwydd yn ganghennau hyd nes y bydd pob problem wedi'i nodi. Os bydd achos yn gymhleth efallai y byddwch am ei rannu yn is-achosion. Dangoswch y llinellau hyn fel rhai sy'n dod oddi ar bob llinell o achosion.



4. Unwaith y bydd yr holl achosion wedi'u nodi, bydd yn bryd dadansoddi'ch diagram. Mae'n bosibl y byddwch am ymchwilio i'r achos ymhellach, er enghraifft, trwy drefnu cyfweiliadau â chleifion neu fapio prosesau. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod yr achosion yn cael eu nodi'n gywir.

## Diagram enghreifftiol 1: Diagram Asgwrn Pysgodyn



Cyfeirnod: Microsoft PowerPoint – A2 – How to construct a fishbone diagram (England.nhs.uk) (Cyrchwyd 22.8.22)

### Beth nesaf?

Bydd y Diagram Asgwrn Pysgodyn yn nodi llawer o achosion posibl. Yn dibynnu ar gymhlethdod a phwysigrwydd y broblem, bydd angen i chi gytuno â'ch tîm/rhanddeiliaid ar ba achos(ion) yr ydych am ymchwilio ymhellach iddynt.

Offer gwella eraill a allai fod yn ddefnyddiol yn y cam hwn yw **Mapiau Proses, 5 Pam neu siartiau Pareto**.

### Awgrymiadau defnyddiol

Gall fod yn anodd dewis y categorïau cywir i helpu i bennu achosion eich problem. Dyma rai i'w hystyried:

- Dulliau, Peiriannau (offer), Pobl (pŵer pobl), Deunyddiau, Mesur ac Amgylchedd.
- Y 4 Cwestiwn: Beth, Pam, Pryd a Ble.
- Y 5 Categori: Pobl, Darpariaethau, Gweithdrefnau, Lleoliad a Chwsmeriaid.

Gwnewch yn siŵr bod eich tîm yn cytuno ar ddatganiad y broblem a'ch bod yn cynnwys y bobl sy'n gysylltiedig â'r broblem.

Cofiwch gynnwys cymaint o wybodaeth â phosibl wrth nodi 'beth', 'ble', 'pryd' a 'faint' y broblem.

Defnyddiwch ddata i'ch helpu i ddeall y broblem.

Defnyddiwch Ddiagram Asgwrn Pysgodyn fel dogfen weithio. Diweddarwch y diagram yn rheolaidd ac wrth i chi gasglu rhagor o ddata neu wrth i chi dreialu datrysiadau amrywiol.

## Adnoddau Ychwanegol

Os oes gennych ddiddordeb mewn dysgu rhagor am sut y gall arferion gwella fod o fudd i'ch gweithle, rydym yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau hyfforddi. Ewch i'n gwefan am ragor o wybodaeth <https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/gwelliant-cymru/academi-gwelliant-cymru/> neu anfonwch e-bost atom [improvementcymruacademy@wales.nhs.uk](mailto:improvementcymruacademy@wales.nhs.uk) i gael rhagor o wybodaeth am y cyrsiau gwella rydym yn eu cynnig.

## Darllen pellach

Asq.org. (2018). *Beth yw diagram asgwrn pysgodyn? Ishikawa Cause & Effect Diagram* | ASQ. [ar-lein] Ar gael yn: <https://asq.org/quality-resources/fishbone> [Cyrchwyd 1 Medi 2022]

England NHS (2022) NHS Improvement Hub [ar-lein] 'How to construct a Fishbone Diagram' ar gael yn [Microsoft PowerPoint - A2 - How to construct a fishbone diagram \(england.nhs.uk\)](https://www.nhs.uk/improvement-hub/2022/02/how-to-construct-a-fishbone-diagram/) [Cyrchwyd 1 Medi 2022].

Ihi.org. (2019). *IHI Home Page*. [ar-lein] Ar gael yn: <http://www.ihl.org/> [Cyrchwyd 1 Medi 2022].

Improvement.nhs.uk. (2019). *Cause and effect (fishbone diagram)* | NHS Improvement. [ar-lein] Ar gael yn: <https://improvement.nhs.uk/resources/cause-and-effect-fishbone-diagram/> [Cyrchwyd 1 Medi 2022].

NHS East London NHS Foundation Trust (2021). *Cause and Effect Diagram (Fish Bone)*. [ar-lein] Ar gael yn: <https://qi.elft.nhs.uk/resource/cause-and-effect-diagram-fish-bone/> [Cyrchwyd 1 Medi 2022].

Beth yw diagram asgwrn pysgodyn? [What is a Fishbone Diagram and How Do I Use One? \(sixsigmadaily.com\)](#) [ar-lein] [Cyrchwyd 6 Hydref 2022].